ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad thematig Estyn ar y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru

**Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn**
**Ymateb Llywodraeth Cymru**

**Teitl yr Adroddiad:**
**Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru**

**Manylion yr adroddiad**
Comisiynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru fel rhan o'i chylch gwaith blynyddol i ystyried safon y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru.

**Crynodeb o'r prif gasgliadau**
Mae yna ddiffyg data dibynadwy i bennu faint o ofalwyr ifanc sydd yn ein hysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a'n colegau ledled Cymru. Mae llawer o'n darparwyr yn anwybodus am ba ddisgyblion a dysgwyr sydd â rôl ofalu. Canlyniad hyn yw bod y ddarpariaeth i ofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion yn amrywio'n fawr iawn.

Mae gan yr ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion sydd orau am ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc systemau cadarn i adnabod y dysgwyr hyn. Maent yn tracio'u hanghenion lles yn rheolaidd ac yn addasu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigol pob gofalwr ifanc. Fodd bynnag, lleiafrif yn unig o'r ysgolion, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion a holwyd sy'n defnyddio system reoli gwybodaeth i dracio ac adrodd ar y cynnydd y mae gofalwyr ifanc yn ei wneud o'u cymharu â'u cyfoedion.

Yn gyffredinol, mae ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion y mae ganddynt aelod enwebedig o staff ar gyfer gofalwyr ifanc yn darparu lefel uwch o ofal, cymorth ac arweiniad iddynt. Mae'n golygu bod gan ofalwyr ifanc yr hyder i ofyn cwestiynau, gan wybod y bydd yr aelod enwebedig o staff yn eirioli drostynt ac yn cysylltu mewn ffordd sensitif gyda rhieni ac ymarferwyr proffesiynol eraill.

Ers i Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 gael ei roi ar waith, mae'r byrddau iechyd lleol a'r awdurdodau yn eu rhanbarthau wedi datblygu partneriaethau strategol gwerthfawr i rannu gwybodaeth, hyrwyddo cydweithredu rhyngasiantaethol, a chwblhau asesiadau priodol o anghenion gofalwyr ifanc. Mae gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn hwyluso ac atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth drwy sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Caiff gofalwyr ifanc eu cynrychioli ar y byrddau rhanbarthol hyn sy'n sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i wella deilliannau i bobl yn eu hardal, ac mae hynny'n cynnwys gofalwyr ifanc. Mae gwaith partneriaeth o'r fath yn cychwyn cynnwys darparwyr addysg.

Mae gofalwyr ifanc yn cael llawer o fudd pan fo gan awdurdodau lleol gynllun strategol clir ar eu cyfer a pherson enwebedig mewn lleoliadau addysg i hyrwyddo'r strategaeth. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae darparwyr yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol pan fydd disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion

| |
|---|
| cynradd, ysgolion uwchradd, a cholegau. Mae ganddynt ymagwedd a dull cyson o adnabod gofalwyr ifanc a'u cyfeirio at gymorth priodol.<br><br>Mae ystod gyfyngedig o gynlluniau gwobrwyo sy'n darparu pecynnau adnoddau defnyddiol i ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion i'w helpu i lunio darpariaeth all ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, nid oes digon o ddarparwyr yn manteisio arnynt.<br><br>Mae asiantaethau arbenigol yn darparu adnoddau a chymorth o safon i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ifanc, a helpu i ddiwallu'r anghenion hynny. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion yn methu ag ymgysylltu'n ddigonol gyda'r asiantaethau hyn ac felly nid ydynt wedi manteisio ar y cymorth gwerthfawr hwn.<br><br>Mae'r hyfforddiant ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, hyfforddiant a noddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion. Yn gyffredinol, mae ysgolion sydd â darpariaeth dda ar gyfer gofalwyr ifanc yn deall sut gall y rôl ofalu effeithio'n andwyol ar brofiadau plentyn a'u cyfleoedd mewn bywyd.<br><br>Mae'r defnydd o broffiliau un tudalen i gofnodi'r hyn sy'n bwysig i blant, ac ar eu cyfer, yn helpu i roi llais i ofalwyr ifanc ac mae'n galluogi i ysgolion, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion dargedu cymorth at anghenion unigolion.<br><br>Mae ystod o gyrsiau hyfforddiant defnyddiol ar gael i wella ymwybyddiaeth staff am anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, nid oes digon o staff mewn ysgolion, colegau ac unedau cyfeirio wedi derbyn yr hyfforddiant hwn.<br><br>Prin iawn oedd yr ysgolion a ymwelwyd oedd â dealltwriaeth glir o hawliau gofalwyr, fel y cawsant eu gwella o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwybodol o'r gofyniad i asesu anghenion gofalwyr ifanc a rôl addysg yn y gwaith o gynnal asesiad o'r fath. |
| <u>Mae chwech argymhelliad yn yr adroddiad ar gyfer ysgolion uwchradd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion:</u><br><br>**Argymhelliad1:** Sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cadarn i nodi pa rai o'u disgyblion/dysgwyr sydd â rôl ofalu<br><br>**Argymhelliad 2:** Cael aelod o staff enwebedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ofalwyr ifanc, sy'n gweithredu fel unigolyn cyswllt ar gyfer gofalwyr ifanc, ac yn hyrwyddo eu hanghenion<br><br>**Argymhelliad 3:** Codi ymwybyddiaeth staff am anghenion gofalwyr ifanc<br><br>**Argymhelliad 4:** Ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol i adolygu a gwella eu darpariaeth i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc<br><br>**Argymhelliad 5:** Olrhain a monitro cynnydd a deilliannau ar gyfer gofalwyr |

ifanc, yn unol â'r drefn ar gyfer grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed

**Argymhelliad 6:** Gwerthuso eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc gan gyfeirio at y rhestr wirio yn Atodiad 1 neu becynnau cymorth sydd ar gael.

Mae un argymhelliad yn yr adroddiad ar gyfer awdurdodau lleol:

**Argymhelliad 7:** Dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio strategaethau gofalwyr ar gynyddu capasiti ysgolion, colegau ac UCDau i nodi a diwallu anghenion gofalwyr ifanc

Bydd swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu sylw at yr argymhellion yn yr adroddiad hwn sydd ar eu cyfer ac ar gyfer lleoliadau addysg.

Mae un argymhelliad yn yr adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru:

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru lunio data dibynadwy a gesglir yn genedlaethol i helpu nodi gofalwyr ifanc

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn:** Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut i gasglu data addysg cenedlaethol am ofalwyr ifanc. Mae'n debyg y bydd hyn yn gofyn am newidiadau i'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion ac felly mae'n siŵr y bydd yn cymryd peth amser.

**Manylion cyhoeddi:**
Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar 22 Mai a bydd ar wefan Estyn: https://www.estyn.gov.wales

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978-1-83876-374-9
© Hawlfraint y Goron Mai 2019
**WG37981**